Teitl swydd: Cynorthwyydd Ymchwil mewn Systemau Deallus

Uned/Ysgol: Ysgol Dechnolegau Caerdydd

Gradd: 4 A/B

HERA: RIS007

**Prif bwrpas y rôl**

Bydd y rôl hon yn cefnogi gwaith ymchwil ac arloesi yr Ysgol drwy gynorthwyo tîm y prosiect mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys casglu a dadansoddi data.Bydd y rôl hon yn cyfrannu at brosiect ymchwil sy'n canolbwyntio ar ddatblygu a gwerthuso systemau synhwyro deallus a systemau sy'n cael eu galluogi gan ddeallusrwydd artiffisial i gefnogi arferion hylendid a chydymffurfiaeth diogelwch bwyd gwell. Bydd deiliad y swydd yn cefnogi'r gwaith o ddylunio, gweithredu a phrofi systemau technoleg fewnosodedig ac sy'n seiliedig ar synwyryddion i fonitro a dadansoddi data ymddygiadol ac amgylcheddol mewn lleoliadau rheoledig ac yn y byd go iawn. Gan weithio o fewn Ysgol Dechnolegau Caerdydd, bydd y Cynorthwyydd Ymchwil yn cydweithio ag ymchwilwyr academaidd a phartneriaid amlddisgyblaethol i gynorthwyo gyda phrototeipio systemau, profi arbrofol a dadansoddi data sy'n gysylltiedig â synwyryddion deallus, gweledigaeth peiriannau a datrysiadau monitro sy'n cael eu gyrru gan deallusrwydd artiffisial. Bydd y rôl yn cyfrannu at hyrwyddo ymchwil gymhwysol mewn systemau deallus ar gyfer cymwysiadau iechyd y cyhoedd a diogelwch bwyd.

**Cyfrifoldebau a chyfraniadau allweddol**

- Cefnogi'r cynllun prosiect ymchwil, gwaith maes a chasglu data mewn ymgynghoriad â'r Prif Ymchwilydd yn erbyn amcanion y cytunwyd arnynt.
- Casglu data unigol neu ar y cyd (e.e., arbrofion, cyfweliadau, arsylwadau).
- Datblygu a defnyddio technegau ymchwil sylfaenol o dan oruchwyliaeth arweinydd y prosiect.
- Sirchau trylwyredd, a defnyddio menter a chreadigrwydd wrth ddadansoddi a dehongli data ymchwil a dod i gasgliadau priodol.
- Cydlynu gwaith eich hun ochr yn ochr â gwaith eraill, gan weithio i derfynau amser a rheoli blaenoriaethau sy'n cystadlu.
- Ymdrin â phroblemau a allai effeithio ar gyflawni amcanion ymchwil a chyfrannu at gynllunio prosiect (prosiectau) yn y dyfodol.
- Cyflwyno gwybodaeth am gynnydd a chanlyniadau ymchwil i'r Prif Ymchwilydd a grwpiau sy'n goruchwylio'r prosiect ymchwil.

- Ysgrifennu canlyniadau gweithgareddau ymchwil eich hun a rhoi mewnbwn i ledaenu'r prosiect ymchwil.

- Sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn y maes astudio perthnasol yn cael ei diweddaru drwy ymgymryd â gweithgareddau hyfforddi a datblygu i wella'r gallu i ymgymryd â chyfrifoldebau ehangach.

- Bod yn wybodus o gyflwr presennol yr ymchwil drwy gynnal adolygiadau llenyddiaeth a monitro datblygiadau newydd ym maes astudio.

- Ysgrifennu'r canlyniadau a chyfrannu at ddrafftio a chyflwyno papurau i gyfnodolion priodol a adolygwyd gan gymheiriaid.

- Cefnogi'r prif ymchwilydd ar bob mater sy'n gysylltiedig â'r prosiect fel y bo angen ac fel y bo'n briodol ac yn gymesur â'r radd.

## Manyleb person

**Cymwysterau hanfodol/Aelodaeth broffesiynol**

- Gradd anrhydedd (2:1 neu uwch) mewn maes pwnc perthnasol neu gyfwerth

**Profiad, gwybodaeth a sgiliau hanfodol**

1. Gwybodaeth am ddulliau ymchwil y lleoliad priodol.
2. Gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion y maes pwnc.
3. Gwybodaeth am lywodraethu moeseg ym maes Addysg Uwch.
4. Y gallu i gynnal ymchwil o ansawdd uchel yn y ddisgyblaeth/maes perthnasol.
5. Y gallu i gynnal, dadansoddi a dehongli ymchwil ansoddol a/neu feintiol.
6. Y gallu i nodi meysydd i'w gwella gan ddefnyddio sgiliau menter a datrys problemau i wella cywirdeb y modelau.
7. Lefel dda o sgiliau dadansoddol.
8. Y gallu i ddefnyddio Microsoft Office.
9. Sgiliau rhyngbersonol cryf gyda gallu i gyfathrebu ac ymgysylltu ag amrywiaeth o academyddion a gweithwyr proffesiynol ar wahanol lefelau drwy adroddiadau, ar lafar ac yn ysgrifenedig.
10. Hunan-gymhellol ac yn drefnus iawn.

11. Tystiolaeth o brosiectau ymchwil a gwblhawyd.

12. Parodrwydd i deithio a gweithredu rhwng campysau yn ôl yr angen ar gyfer llwyddiant y prosiect ymchwil.

**Dymunol**

1. Yn meddu ar radd meistr neu'n astudio ar ei chyfer.
2. Profiad o weithio ar brosiect ymchwil o fewn amgylchedd ymchwil amlddisgyblaethol.
3. Profiad o gyflwyno (i gynulleidfaoedd bach a mawr).

**Gofynion sgiliau Cymraeg**
Mae'r Gymraeg yn hanfodol i'n myfyrwyr a'n staff ac mae'n rhan allweddol o'n darpariaeth a'n gwasanaethau. Ar gyfer pob swydd ym Met Caerdydd, mae hyfedredd yn yr iaith Gymraeg naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y lefelau drwy edrych ar ein llyfryn: Lefelau sgiliau Cymraeg. Os yw sgil wedi'i rhestru fel un hanfodol yn y tabl isod, sicrhewch eich bod yn dangos hyn yn eich ffurflen gais ar-lein.

| Lefel iaith a disgrifiwr cyffredinol | Gwrando | Darllen | Siarad | Ysgrifennu |
|---|---|---|---|---|
| **A1 – Dechreuwr**<br>Yn gallu deall a defnyddio ymadroddion bob dydd cyfarwydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg. | Dymunol | Dymunol | Dymunol | Dymunol |
| **A2 - Defnyddiwr sylfaenol**<br>Yn gallu delio â gwybodaeth syml, uniongyrchol a chyfathrebu mewn Cymraeg sylfaenol. | | | | |
| **B1 - Defnyddiwr canolradd**<br>Yn gallu cyfathrebu, i lefel gyfyngedig, yn y Gymraeg am bethau sy'n gyfarwydd a/neu'n gysylltiedig â gwaith. | | | | |
| **B2 - Defnyddiwr canolradd uwch**<br>Yn gallu mynegi ei hun yn y Gymraeg ar amrywiaeth o bynciau a deall y rhan fwyaf o sgwrs gyda siaradwr brodorol. | | | | |
| **C1 - Defnyddiwr rhugl** | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg. | | | | |
| **C2 - Meistrolaeth**<br>Yn gallu cyfathrebu'n rhugl ar faterion cymhleth ac arbenigol yn y Gymraeg. | | | | |

**Gofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**

Nid oes angen gwiriad DBS ar y swydd hon.

**Rhagor o wybodaeth**

Mae'r Brifysgol yn sefydliad deinamig ac efallai y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Ni fwriedir i'r disgrifiad swydd a'r fanyleb y person hwn fod yn gynhwysfawr.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau ymddygiad moesegol a phroffesiynol uchaf. Felly, disgwylir i bob gweithiwr roi sylw dyladwy i effaith eu hymddygiad personol a'u hymddygiad ar y Brifysgol, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid busnes a'n cymuned. Rhaid i bob gweithiwr ddangos ymlyniad â'n Cod Ymddygiad Proffesiynol. Yn ogystal, dylai pob gweithiwr roi sylw arbennig i'w gyfrifoldebau o dan bolisïau a gweithdrefnau Prifysgol Metropolitan Caerdydd.